pp Hydref 16.qxp_Layout 1 12/10/2016 9:48 am Page 1

Pris: 50c

# Papur Pawb

Hydref 2016 Rhif 422



Balerinas?...nage pêl-droedwyr Tal-y-bont a Llanboidy. Ceir yr hanes ar dudalen 12.

tud 3 Pobl a Phethe
tud 4, 5 Ysgol Tal-y-bont
tud 10 Busnesa
tud 12 Chwaraeon

# Ddyfodol ciosgau ffôn Tal-y-bont a Taliesin yn y fantol




Yn ôl adroddiadau yn y wasg yr wythnos hon mae BT wedi cysylltu gyda chynghorau ar draws Cymru i'w hysbysu o'i bwriad i gael gwared ar bron i hanner y ciosgau ffôn cyhoeddus sydd yn parhau mewn gwasanaeth.

Ac mae ciosgau Tal-y-bont a Taliesin ymhlith y rhai a glustnodwyd i'w cau.

Mewn nodyn uniaith Saesneg a osodwyd yn y ddau giosg mae BT yn hysbysu taw ychydig iawn o ddefnydd a wnaed ohonynt, a'i bod yn bwriadu eu cau.

Noda hefyd bod yna gyfnod ymgynghorol o 42 diwrnod (o'r 13eg o Fedi yn achos Tal-y-bont, a'r 14eg o Fedi yn Nhaliesin), ond does dim awgrym bod modd gwyrdroi'r penderfyniad.

Yr unig bwynt cyswllt a roddir yw rhif ar gyfer cael lleoliad y ffôn cyhoeddus agosaf.

Yn ôl BT mae 3,394 o ffonau talu yng Nghymru, ac mae llawer ohonynt heb eu defnyddio o gwbl yn ystod y 12 mis diwethaf.


13/9/2016.
BT
PUBLIC NOTICE
Payphone kiosk removal
Hello.
Our information shows that this phone box has had very little use over a significant period of time.
We're therefore proposing to remove this phone box. There is a consultation period of 42 days from the above date.
Please contact your Local Authority Planning Department if you have any comments.
If you'd like to know where the nearest alternative payphone is, or who your local authority is please contact us on:
0800 661 610 option 1
This number is only able to provide alternative payphone details and the name of your local authority.

Y bwriad yw cael gwared ar 1,579 ohonynt ond bod y cwmni wedi "ymrwymo i ddarparu gwasanaeth ffonau talu cyhoeddus".

Ychwanega BT fod "cwymp o 90% wedi bod yn eu defnydd yn ystod y degawd diwethaf", a'i bod yn "parhau i adolygu a datgysylltu ffonau nad oes eu hangen mwyach".

Dywed BT bod bron i hanner y ffonau talu cyhoeddus wedi eu datgysylltu erbyn hyn.

Mae Papur Pawb yn deall bod Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr wedi derbyn llythyr oddi wrth BT yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnig iddynt fabwysiadau'r ciosg er budd y gymuned, ond na ddaeth dim o'r cynnig hwnnw.

Yn y cyfamser, mae Cyngor Cymuned Ysgubor-y-coed wedi mabwysiadau'r ciosg yn Eglwys Fach gan osod diffibriliwr ynddo.

Gyda diflaniad yn ddau giosg yma, fydd yna'r un ffôn talu cyhoeddus ar y briffordd rhwng Bow Street a gogledd y sir. Ond oes wir eu hangen?

Yn ôl adroddiad a gyhoeddwyd gan OFCOM ym mis Awst, mae 91% o oedolion yng Nghymru yn meddu ar ffôn symudol, gyda 65% o bobl yn meddu ar ffôn deallus.

Ond, fel mae llawer ohonom yn gwybod, stori arall yw llwyddo i gael signal.

Ym mis Mai 2016 dim ond 75% o gartrefi yng Nghymru oedd â gwasanaeth 3G gan y pedwar prif rwydwaith, o'i gymharu â 92% ar draws y Deyrnas Gyfunol.

Ac mae'r ffigyrau ar gyfer gwasanaeth 4G yn waeth o lawer – 44% yng Nghymru o'r gymharu â 71% ar draws y Deyrnas Gyfunol - ffeithiau na fydd yn syndod i unrhyw un sy'n byw yng nghanolbarth a gorllewin Cymru.

Mewn byd lle mae mwy a mwy o bobl yn ddibynnol ar rwydweithiau ffôn symudol, boed hynny at ddibenion masnach, diogelwch neu gadw mewn cysylltiad gyda ffrindiau a theulu, mae dybryd angen buddsoddi yn y rhwydweithiau hyn.

Ond a fydd colli'r ddau giosg hyn yn gwneud unrhyw wahaniaeth?

pp Hydref 16.qxp_Layout 1 12/10/2016 9:48 am Page 2


## Papur Pawb

| | | |
|---|---|---|
| **Golygydd Cyffredinol:** | Gwyn Jenkins<br>Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion<br>golygydd@papurpawb.com | (01970) 832560 |
| **Tynnu lluniau:** | Cysyllter â golygyddion y mis | |
| | GOHEBYDDION LLEOL | |
| **Tal-y-bont:** | Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont | 832592 |
| | Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont | 832438 |
| **Maes-y-deri:** | Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont | 832483 |
| **Parsel Henllys:** | Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont | 832498 |
| **Bont-goch:** | Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch | 832566 |
| **Tre Taliesin:** | Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin | 832230 |
| **Tre'r-ddôl:** | Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl | (01654) 781260 |
| | Michelle James, 4 Maes Clettwr, Tre'r-ddôl | 832028 |
| **Eglwysfach/Ffwrnais:** | Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais | (01654) 781324 |
| **Rhwydweithiau cymdeithasol:** | Ceri Morgan | |
| | CYMDEITHAS PAPUR PAWB | |
| **Cadeirydd:** | Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont | 832203 |
| **Is-gadeirydd:** | Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont | 832697 |
| **Ysgrifennydd:** | Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont | 832344 |
| **Trysorydd:** | Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont | 832093 |
| **Tanysgrifiadau:** | Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont | 832448 |
| **Hysbysebion:** | Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont | 832076 |
| **Plygu'r Papur:** | Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins | |
| **Dosbarthwyr:** | John Leeding; Lynn Ebenezer; Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon | |

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.


# Proff yn y Pyb

**Nos Fercher 19 Hydref**
'Agweddau o Armagedon - effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ffrwydriadau folcanig mawr'.
Yr Athro John Grattan, Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, Prifysgol Aberystwyth.

**Nos Fercher 16 Tachwedd**
'1754-2054, 300 mlynedd o newid hinsawdd'
Yr Athro John Farrar, Prifysgol Bangor

Cynhelir y ddwy noson, yn y Saesneg, yn y Llew Gwyn a byddant yn dechrau am 8 yr hwyr. Croeso i bawb!

Trefnir Proff yn y Pyb gan Grŵp Llifogwyr Talybont

## Cywiriad

Cyhoeddwyd y cyfeiriad ebost anghywir ar gyfer ein gohebydd newydd yn Nhre'r Ddôl, Michelle James. Dyma'i chyfeiriad: v.michelle_j@yahoo.co.uk


**Morlan**
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**STOMP LLYFRAU (7.30, nos Fercher, 2 Tachwedd):** noson llawn hwyl a thensiwn pan fydd cynrychiolwyr o'r papurau bro lleol yn ceisio perswadio'r gynulleidfa i bleidleisio dros ei ddewis ef/hi o lyfr gorau'r 2 flynedd diwethaf. Dewch i drafod. Dewch i fwynhau. Dewch i gefnogi eich papur bro! Mynediad: £3.

**PLYGAIN MORLAN (7.30, nos Fercher, 21 Rhagfyr):** Dewch i ddathlu'r Nadolig yn ein Plygain draddodiadol. Croeso cynnes i bawb.

**Manylion llawn: www.morlan.org.uk**
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan





## NEUADD GOFFA TAL-Y-BONT

## FFAIR NADOLIG

Sadwrn 26 Tachwedd
2:00 o'r gloch

Mynediad £2.00 i gynnwys lluniaeth
(Plant ysgol am ddim)

Stondinau gan Fudiadau a Busnesau Lleol,
Rafflau a chystadlaethau amrywiol.

Dewch i gefnogi a mwynhau hwyl yr ŵyl.

# Dyddiadur

**HYDREF**

**14 Sesiwn Nos Wener** Welsh Whisperer a Hywel Pitts, YBlac, Tal-y-bont, 8

**16 Bethel** 10 Lleol
**Rehoboth** 10 Richard Lewis
**Eglwys Sant Pedr, Elerch** 2.30 Judith Morris, Cwrdd Diolchgarwch
**Cletwr, Tre'r-ddôl** 10-1 Taith Gerdded Ffotograffiaeth Hydrefol

**18 Cletwr, Tre'r-ddôl** 7.15-9 Hyfforddiant Diffibriliwr

**19 Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** 'Meddwlgarwch' (Siwan Morus)
**Cletwr, Tre'r-ddôl** 3-5 Gofal Anifeiliaid Anwes
**Proff yn y Pyb** Llew Gwyn, 8

**20 Sefydliad y Merched Tal-y-bont** Cyfarfod Blynyddol
**Eglwys Dewi Sant** 7 Gwasanaeth Hwyrol
**Wildfowler, Tre'r Ddôl** Bingo

**23 Bethel** 10 Gweinidog (Cymundeb)
**Nasareth** 10 Judith Morris
**Rehoboth** 10 Tegwyn Jones
**Eglwys Dewi Sant** 11 Gwasanaeth pob oedran

**25 Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn** 7.30 Llanfach 'Ffilm: Rhyfel y Somme 1916'

**29 Cletwr, Tre'r-ddôl** 5.30-7.30 Crefftau, Te a Tricotrîtio Calan Gaeaf

**30 Bethel** 10 Oedfa Undebol yr Ofalaeth ym Methel
**Nasareth** 10 Rhidian Griffiths
**Rehoboth** 2 Elwyn Pryse
**Eglwys Dewi Sant** 10 Oedfa Unedig yn Eglwys Sant Mihangel, Llandre (Cymun Bendigaid
**Eglwys Sant Pedr, Elerch** 2.30 Oedfa Unedig yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch (Cymun Bendigaid)
**Parti Calan Gaeaf** 4-6 Neuadd Goffa Tal-y-bont

**TACHWEDD**

**1 Sefydliad y Merched Taliesin** Cyfarfod Blynyddol a mwy o drysorau'r aelodau

**3 CIC** 6 Neuadd Rhydypennau
**Eglwys Dewi Sant** 7 Gwasanaeth Hwyrol
**Wildfowler, Tre'r Ddôl** Bingo

**5 Noson yng nghwmni John ac Alun a Wil Tân** 8 Gwesty Llety Parc. Mynediad drwy docyn £10, ar gael o'r gwesty neu Megan ar 01970-612768. Elw'r noson at Ambiwlans Awyr Cymru.

**6 Bethel** 10 Uno yn Nasareth
**Nasareth** 10 Bugail (C)
**Rehoboth** 5 Bugail
**Eglwys Dewi Sant** 11 Cymun Bendigaid
**Eglwys Sant Pedr, Elerch** 2.30 Cymun Bendigaid

**8 Cymdeithas y Chwiorydd**
**Rehoboth** 'Ffilm: Adloniant Lleol' (Emyr Jones)

**13 Bethel** 2 Gweinidog (Sul y Cofio)
**Rehoboth** 2 Bugail (C)
**Neuadd Goffa Tal-y-bont** 10.45 Gwasanaeth Sul y Cofio

**16 Proff yn y Pyb** Llew Gwyn, 8

**17 Wildfowler, Tre'r Ddôl** Bingo

**18 Sesiwn Nos Wener** Gwilym Bowen Rhys, Llew Gwyn, 8

**26 Ffair Nadolig** 2 p.m. Neuadd Goffa Tal-y-bont

## Cyfarfod Cyhoeddus

**Neuadd Rhydypennau, Bow Street**
**Tachwedd 10 2016 am 7.30**



**BREXIT A DYFODOL CYMRU**
**Beth sy'n digwydd nesaf?**
**Beth fydd perthynas Prydain ag Ewrop i'r dyfodol?**
**Sut mae gwarchod buddiannau Cymru?**

Dewch i wrando a thrafod y cwestiynau hyn ac eraill yng nghwmni

**JONATHAN EDWARDS AS**

**SIMON THOMAS AC**

**Cadeirydd - ELIN JONES AC Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol**

Cyfarfod dwyieithog fydd hwn a bydd cyfieithu ar y pryd

Trefnir gan Blaid Cymru Cangen Rhydypennau

**Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.**

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Rebecca ac Arthur, gyda Ceri yn dylunio. Golygyddion mis Tachwedd fydd Delyth a Bleddyn huws.henllan@btinternet.co

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 4 Tachwedd, a bydd y papur ar werth ar 11 Tachwedd.

pp Hydref 16.qxp_Layout 1 12/10/2016 9:48 am Page 3

**Swyddi Newydd**

Llongyfarchiadau i Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont ar ei phenodiad fel Pennaeth Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen, Cyngor Llyfrau Cymru. Bydd colled mawr iawn ar ei hôl wedi blynyddoedd o wasanaeth fel athrawes yn Ysgol Rhydypennau.

Pob lwc hefyd i Joel Dixon yn ei swydd newydd gyda chwmni Santander. Bydd pawb yn y Wildfowler yn gweld ei eisiau. Dymunwn yn dda i'r ddau yn eu swyddi newydd.

**Priodas Aur**

Llongyfarchiadau i Iori a Kathleen Jones, Ger-y-nant, Tre'r-ddôl ar ddathlu eu Priodas Aur ar 17 Medi.

**Symud Tŷ**

Mae Margaret Hands, Pant Haul, Bont-goch wedi symud i fyw i Penrhyn-coch. Dymunwn y gorau iddi yn ei chartref newydd.

**Pen-blwydd Hapus**

Mae Hywel Williams, Cynnullmawr, Dilwyn Evans, Tynant, a Rhian Evans Glanyrafon oll wedi dathlu penblwyddi arbennig yn ddiweddar. Llongyfarchiadau iddyn nhw i gyd!

**Gwellhad buan**

Dymunwn adferiad buan i Bill Gardener, Pandy, Tal-y-bont ar ôl iddo gael clun newydd yn ddiweddar.

Gwellhad buan hefyd i Steve Taylor, Pant y Calch, Tal-y-bont sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn dilyn damwain beic.

Nid yw John Leeding, Glannant, Taliesin, wedi mwynhau iechyd da ers peth amser. Gobeithio y byddi di'n teimlo'n well cyn bo hir John.

**Croeso i Tal-y-bont**

Mae Rob Davies a Liana Ellis Jones wedi dod i fyw i Mans y Tabernacl, Tal-y-bont.

Ac mae John a Natalie Morris, Scarlett, Leo, Whitney, Tiffany, Izzy a Bethany wedi symud i 63 Maes y Deri, Tal-y-bont. Croeso mawr iddyn nhw i gyd.

**Rygbi**

Llongyfarchiadau i Tomos Jenkins, Ynysgreigiog, Ffwrnais ar gael ei ddewis i chwarae rygbi i dîm y sir.

# Pobl a Phethe



## Priodas

Priodwyd Holly Ann Morgan, Awelon, Tal-y-bont a Wayne Aubrey o'r Tymbl yng Ngwesty Llew Du, Tal-y-bont ar 13eg Awst 2016. Treuliwyd y mis mêl yn Kefalonia, Groeg.



## Capel Bethesda Tynant

Cynhaliwyd gwasanaeth diolchgarwch capel Bethesda Tynant ar brynhawn Sul braf, 11 Medi. Roedd y gwasanaeth dan ofal Beti Griffiths, Llanilar, a braf oedd gweld y capel yn llawn gan fod nifer o ffrindiau o ardal Lledrod wedi dod i'w chefnogi.

Cymerwyd rhan yn ystod yr oedfa gan ddau o enillwyr Eisteddfod Genedlaethol y Fenni eleni pan gafwyd cyflwyniad llafar gan Nest Jenkins a chân gan Efan Williams, yn ogystal â deuawd gan John a Lisa Glant. Roedd yr oedfa yn glo arbennig i raglen capel Bethesda am eleni.

**Ymddeoliad**

Mae Dorothy Green, Pantglas, Tal-y-bont wedi ymddeol yn ddiweddar. Pob hwyl iddi yn ei hymddeoliad.

Mae Rita a Hefin Llwyd, gynt o Tal-y-bont, wedi ymddeol hefyd, ac wedi symud i fyw i'r gogledd. Pob hwyl iddyn nhw.

**Beicio**

Llongyfarchiadau i Grant, Scott a Josh Mayhew, Brynhyfryd, Tre'r Ddôl, ar eu llwyddiant mewn pencampwriaeth beicio yn ddiweddar.

**Cydymdeimlad**

Trist iawn yw cofnodi'r marwolaethau canlynol yn ystod y mis a aeth heibio:

Carol Evans, Tynrhelyg, Tal-y-bont, gwraig Evan, mam David a Glenys, a mamgu Siôn, Rhydian, Hefin, Medi, Megan a Trystan.

Elizabeth (Royle) Evans, mam Siôn, mam-yng-nghyfraith Lisa, a mamgu Eli a Celyn, Y Dderwen, Tal-y-bont.

Dilys Jones, 21 Tregerddan, Bow Street, mam Maldwyn, mam yng nghyfraith Margaret Jones, Penlonlas, Tal-y-bont, mamgu Siôn a Rhian, a hen-famgu i Osian, Elis a Lloyd.

Estynnwn ein cydymdeimlad at y teuluoedd oll.

**Ysbyty**

Mae Alun Jones, Llwynglas yn Ysbyty Treforys ar hyn y bryd. Dymunwn wellhad buan iddo.

Hefyd i Delyth Huws, Henllan, Tal-y-bont sydd wedi cael triniaeth ar ei llygad yn ddiweddar.

**Cartref newydd**

Dymuniadau gorau i Eirlys Jones, gynt o Faes-y-deri, Tal-y-bont sydd wedi symud i fyw i gartref preswyl Hafan y Waun.

**Teithio**

Pob hwyl i Glyn Jenkins, Frondirion, Tal-y-bont sydd wedi symud i fyw i Seland Newydd am gyfnod.

**Bingo**

Cafwyd hwyl yn noson bingo gyntaf y Wildfowler. Cynhelir nosweithiau bingo eraill dros y gaeaf ar y dyddiadau canlynol: 20 Hydref; 3 Tachwedd; 17 Tachwedd; 1 Rhagfyr; 5 Ionawr; 19 Ionawr; 02 Chwefror, 16 Chwefror.

pp Hydref 16.qxp_Layout 1 12/10/2016 9:48 am Page 4

# Ysgol Tal-y-bont



Dysgu am fywyd ysgol yn Oes Fictoria




Miss Buddug Williams




Lela Ann Morgan



# Tal-y-bont Teirw



Tîm pêl-droed Tal-y-bont Teirw dan 9 yn eu cit newydd a noddwyd gan Anthony Foulkes, Adeiladwr, Taliesin. Rheolwyr y tîm yw Paul Kelly, Tal-y-bont a Gareth Norris, Tal-y-bont, pob lwc i'r tîm yn ystod y tymor.

pp Hydref 16.qxp_Layout 1 12/10/2016 9:48 am Page 5

# Ysgol Tal-y-bont

Ar ddechrau tymor a blwyddyn addysgol newydd rydym yn falch o groesawu wynebau newydd. Croeso mawr i'r holl blant bach sydd wedi ymuno â ni ac yn dechrau ysgol am y tro cyntaf yn y Dosbarth Derbyn ac i'r plant sydd wedi ymuno â ni o Ysgol Llangynfelyn.

Mae 78 o blant ar y gofrestr ac mae gennym 4 dosbarth llawn amser eleni, felly hoffwn groesawu Miss Buddug Williams fel athrawes newydd yn y Dosbarth Derbyn. Rydym yn ffodus hefyd fod Mrs Lynwen Herbert-Morgan a Mrs Elen Clwyd Roberts yn addysgu yn y dosbarthiadau yn rhan amser.

Mae'r tymor wedi dechrau'n brysur a bu Plant Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 yn ymweld â Chanolfan y Barcud Coch yn Nhregaron er mwyn cael dysgu am fywyd ysgol yn Oes Fictoria. Diolch yn fawr am y croeso a'r pice bach ac i Mr John Jones am beidio bod yn rhy llym!

Bu Blwyddyn 5 a 6 yn gweld sioe Mari Jones gan gwmni Mewn Cymeriad yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth.

Llongyfarchiadau mawr i Lela Ann Morgan Jenkins o'r Dosbarth Derbyn sydd wedi codi dros £100 i elusen *Blood Wise Leukaemia* yn rhedeg milltir mewn 10 munud a 25 eiliad yn y *Great North Run* yn Newcastle. Dyma gamp arbennig Lela ac mae pawb yn yr ysgol yn falch iawn o dy lwyddiant.

Llongyfarchiadau gwresog hefyd i Miss Lois Reynolds ar ei dyweddïad diweddar. Rydym yn dymuno'n dda iddi hi a'i dyweddi Daniel.

# Ymwelwyr o Awstralia

Fel nodwyd yn rhifyn Medi o Bapur Pawb daeth y Parchedig Ddr John McIntosh i'r gwasanaeth boreol yn Eglwys Penrhyn-coch ar 25 Medi i roi ychydig o hanes David J. Davies (1879-1935), gŵr a aned ym Mhantgwyn, Bont-goch, ac a aeth ymlaen i fod yn brifathro dylanwadol ar Goleg Diwinyddol mwyaf Awstralia, sef Moore College, Sydney. Gadawodd Davies ardal Elerch pan oedd yn blentyn ifanc iawn.

Yn ystod y prynhawn daeth John yng nghwmni ei wraig Diane a'i chwaer Jean i ymweld â Bont-goch am y tro cyntaf. Cawsant gyfle i weld yr ysgol lle bu tad D. J. Davies yn brifathro am gyfnod byr, cyn ymweld ag Eglwys St. Pedr, lle cafodd ei fedyddio yn 1879. Yn ogystal cafwyd sgwrs ddifyr dros baned ym Mhantgwyn, a chyfle i glywed mwy o'i hanes.

# Ffens Llys Alaw

Dyma ymateb gan gymydog o weld capten tîm Talwrn, Tal-y-bont, yn codi ffens o flaen ei gartref yn ystod yr haf.

Mae'r haul yn tanio'n ffyrnig,
A'r chwys red fesul drip,
Ond draw ar dir Llys Alaw
Rhyw foi sy'n llenwi sgip,
Â phridd a cherrig mân y ddol.
Beth ddiawl sydd mlân 'da'r moelgi ffôl?

Mond Sais a chi cynddeiriog
Aiff allan ganol dydd,
Ond hwn sy'n mynnu palu,
Faint bynnag wres a fydd,
A'r chwys sy'n gwlitho blew ei fron,
Wrth geibio i Awstralia, bron.

Am eiliad mae'n ymddangos,
Â'r tyllau'n amlhau,
Fod hwn yn dechrau ffracio
Ar dir ein bur hoff bau.
Bydd Stâd Gogerddan ar ei ôl
Cans nhw sydd biau dan y ddôl.

Daw polion, chwap, i'r golwg,
Rhai soled, cryf, o bîn,
A phlennir rhain yn ebrwydd,
Mewn tyllau, fesul un,
Yn ara deg fe welaf sens,
Mae'r ceit yn mynd i godi ffens.

Cyn hir mae'r ffram yn siapo,
Ond oledd sy'n y tir,
Ymorol am y lefel
Fydd raid, ond ar fy ngwir,
Fe godwyd amddiffynfa cry'
A'r ffens yn wastad gyda thi.
Mae'r ffens yn werth ei gweled

Yn wir, a hynny'n ffaith,
A gwraig y labrwr chwyslyd
Sy'n eitha' plês â'r gwaith.
I atal ci a rhwystro cath.
Ni welwyd eto ffens o'r fath.

Draw yn nghyffiniau Rio
Fe roddir medal hardd
I gampwr y byd ffenso,
Ond gwell i lygaid bardd,
Na phrancio'r holl gleddyfwyr i gyd
Yw campwaith ffensiwr gorau'r byd.

Gwynionydd
15 Awst 2016


Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

CANOLFAN M.O.T. HUW LEWIS M.O.T. CENTRE
Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT
TEIARS HUW LEWIS TYRES
HUWLEWISTYRES.COM
Glanyrafon — Rhodfa'r Parc
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.
ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN

Pencefen ,Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 – 07721 786292

Y LLEW GWYN
TAL-Y-BONT
Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
Ar agor bob dydd
Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00
Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50
Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50
Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)
Ystafelloedd ar gael
01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Gwasanaeth Cynnal a Chadw Gerddi
MYNACH
Garden Maintenance
Torri Porfa, Sietynau, Tirlunio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792457816 / 01974 261758
e-bost:
mynachhandyman@yahoo.com

Bistro
Gannets

Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

# Teyrnged

## Carol Evans

Collodd yr ardal hon un o'i thrigolion mwyaf cymwynasgar ddydd Mercher, 21 Medi pan fu farw Carol Evans, Tynrhelyg, Tal-y-bont yn 71 mlwydd oed yn dilyn gwaeledd creulon a ddioddefodd yn ddewr. Ganed hi yn un o ddeg o blant i Evan John a Mary Davies, Henbant, Capel Dewi, Llandysul a hwythau'n rhannu'n gyfartal yn bum chwaer a phum brawd. Symudodd y teulu maes o law i Bedw Hirion, Gwyddgrug a mynychodd Ysgol New Inn, Pencader ac Ysgol Uwchradd Castell Newydd Emlyn yn ddiweddarach.

Wedi cyfnod yn dilyn cwrs ysgrifenyddol yng ngholeg Pibwrlwyd cafodd swydd gyda chyfreithiwr yn Nhregaron. Ymunodd â Chlwb Ffermwyr Ifanc Tregaron a chyfarfod ag Evan, cyfarfyddiad a fyddai wrth gwrs yn newid cwrs ei bywyd. Priodwyd y ddau ym mis Medi 1964 a dyma ddau oedd yn deall ei gilydd i'r dim ac yn gwneud tîm da. Gwelwyd hynny ar waith trwy gydol eu bywyd priodasol yn arbennig wrth gydweithio o ddydd i ddydd. Yn wir roedd y ddau wedi dathlu pen blwydd priodas 52 mlynedd ar y dydd Sadwrn cyn marwolaeth Carol.

Dyma bâr oedd â menter yn eu gwaed a threuliodd y ddau saith mlynedd cyntaf eu bywyd priodasol yn ardal Kilburn, Llundain yn cynnal rownd laeth brysur a siop yn gwerthu pob dim. Byddai Carol yn cyfeirio at y cyfnod fel un hynod o hapus ac yma y sefydlwyd y teulu pan ganwyd David, a Glenys wedi hynny.

Ym 1971 dychwelodd y teulu i Gymru ac i Dal-y-bont i ffermio Neuadd Fawr gan ymgartrefu am y deg mlynedd cyntaf yng Ngorwelion. Symudwyd wedi hynny i Neuadd Fawr gan dreulio cyfnod o ugain mlynedd yno a dyna lle rydw i yn cofio Carol orau. I mi yn blentyn, Evan a Carol oedd cwpwl mwyaf 'glamorous' Cwm Ceulan a Carol yn ddynes hardd, weithgar a hynod garedig. Byddai Carol fyth yn segur, roedd wastad yn brysur, boed hynny yn cadw tŷ dilychwin, yn tendio'r rhosynnau hardd wrth y drws, yn helpu gyda'r defaid a'r gwartheg neu'n cario llaeth i'r ŵyn swci.

Felly roedd Carol hefyd yn ei chymuned, yn weithgar a pharod ei chymwynas a'i chonsyrn bob amser. Bu'n aelod ffyddlon o gapel Nazareth, Tal-y-bont ac yn un o wirfoddolwyr Pryd ar Glyd am nifer o flynyddoedd. Tra bu Evan yn weithgar ar bwyllgorau'r Neuadd Goffa a'r Sioe byddai Carol yno'n gefn bob amser ac yn un o'r criw gweithgar hynny fyddai wastad yng nghefn y Neuadd ar ddigwyddiadau fel Ffair y Neuadd a'r Yrfa Chwist yn llywio'r te.

Bedair mlynedd ar ddeg yn ôl symudodd Evan a Carol i Tynrhelyg a gyda menter y bythynnod gwyliau hunan-ddarpar cafodd Carol gyfle i arddangos ei doniau artistig. Mae graen arbennig Eithinog, Helygen a Llechwedd Mawr yn tystio i'w llygad arbennig wrth addurno, ei chwaeth naturiol a'i sylw i'r manylion bach hynny sy'n mynd tu hwnt i'r cyffredin. Cai foddhad arbennig o groesawu'r ymwelwyr amrywiol a gwneud yn siŵr eu bod yn cael y gwyliau gorau posib gan sicrhau eu bod yn profi'r gorau oedd gan yr ardal yma i'w gynnig.

Uwchlaw pob dim arall roedd y teulu yn rhan ganolog o fywyd Carol ac ymhyfrydai'n fawr yn llwyddiannau David a Glenys a'r chwech o wyrion. Roedd wedi cofleidio'r datblygiadau technegol diweddaraf er mwyn cadw cyswllt cyson gyda Glenys a'r teulu yn yr Unol Daleithiau. Cafodd angladd hollol breifat yn ôl ei dymuniad ddydd Mercher 28 Medi yn yr Amlosgfa yn Aberystwyth dan ofal ei gweinidog Y Parchedig Wyn Morris a roddodd deyrnged hyfryd iddi. Cydymdeimlwn yn fawr â Evan a David a Glenys a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

*RHE*


Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

K Hughes
Plymio a Gwresogi
Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew
01970 832129
07761 917235


## Merched y Wawr Tal-y-bont a'r cylch

Cafwyd cychwyn ardderchog i raglen 2016–2017 cangen Tal-y-bont a'r cylch o Ferched y Wawr ar nos Lun, 26 Medi yng nghwmni'r amryddawn Mair Penri, Parc, y Bala.

Yn gyn enillydd Gwobr Goffa T H Parry Williams yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2008 am ei chyfraniad i fyd llefaru a drama, doedd dim syndod felly mai i'r cyfeiriad hwnnw yr aeth â ni.

'Mair Penri a'i phobl' oedd teitl y noson a thrwy ei dawn actio'n arbennig fe gyflwynodd nifer o gymeriadau mewn hanes, rhai dychmygol a rhai a ddaeth ar eu traws dros y blynyddoedd. Cyn portreadu'r cymeriadau fe gawsom eu hanes a'u cefndir.

Hawdd oedd deall sut yr enillodd wobrau lu ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol gyda'i pherfformiadau bywiog, dwys a digri. Hi hefyd oedd yn gyfrifol am y sgriptiau.

Diolchwyd i Mair am noson wych gan Fal Jenkins. Mwynhawyd paned a chacen (neu ddwy!) wedi eu paratoi gan Ann Humphreys a Fal.


THEATR
BARACAWS
galeri

RASLAS
BACH a MAWR gan WYNFORD ELLIS OWEN a MICI PLWM

Dewch i helpu ein harwyr glew, Syr Wynff ap Concord y Bos a Plwmsan y Twmffat Twp, wrth iddynt gychwyn ar antur enbyd i achub y genedl rhag fisdimanars yr awdurdodau drygionus ac i ailfeddiannu eu cartref teuluol...

Sioe newydd sbon i bawb o bob oed gan Wynford Ellis Owen a Mici Plwm.

Gwener 25-11-16 Canolfan y Celfyddydau | Aberystwyth 13:00 - 18:30 01970 623 232
Sadwrn 26-11-16 Canolfan y Celfyddydau | Aberystwyth 13:00 - 18:30 aberystwythartscentre.co.uk/cy
Sadwrn 03-12-16 Theatr Mwldan | Aberteifi 13:00 - 18:30 01239 621 200 mwldan.co.uk/cy


Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

STORFA CANOLBARTH CYMRU
MID WALES STORAGE
Storfa Cartref a Busnes

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi
Mid Wales Removals
www.midwalesremovals.co.uk

Bocses a bubblewrap ar lein
www.boxshopsuppies.co.uk
Ffon: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
Investors in People | Buddsoddwyr mewn Pobl

pp Hydref 16.qxp_Layout 1 12/10/2016 9:48 am Page 7




# Staff Newydd

Mae tri aelod o staff newydd wedi dechrau yng ngwasg Y Lolfa y mis hwn. Penodwyd **Gwenllian Jones** fel Rheolwr Swyddfa, **Carolyn Hodges** fel golygydd Saesneg a **Robat Trefor** fel golygydd copi Cymraeg. Daw Gwenllian Jones o Aberaeron a bu'n gweithio i Avanti yng Nghaerdydd cyn symud yn ôl i Geredigion. Golygydd copi Cymraeg newydd y wasg fydd Robat Trefor o Ynys Môn. Bu'n olygydd, tiwtor a chyfiethydd yn ei dro ac fe ddechreuodd arni'n gweithio am gyfnod o bum mlynedd ar *Eiriadur yr Academi*. Ymhlith y penodiadau newydd bydd swydd newydd sbon hefyd, sef golygydd Saesneg, fydd yn cael ei chyflawni gan Carolyn Hodges. Daw Carolyn o Buckingham yn wreiddiol. Dechreuodd ar ei gyrfa golygyddol yng Ngwasg Prifysgol Rhydychen ble bu am 14 mlynedd.

# Papurau Bro yn Cystadlu mewn Stomp Llyfrau

Yn eich tyb chi pa lyfr sy'n haeddu'r teitl 'Llyfr Gorau' o blith y rhai a gyhoeddwyd ers Ionawr 2014?

Dyma fydd yn cael ei benderfynu mewn Stomp Llyfrau arbennig yng Nghanolfan Morlan, Aberystwyth am 7.30, nos Fercher, 2 Tachwedd.

Cynhaliodd Morlan ei Stomp Llyfrau cyntaf ym mis Mai y llynedd fel rhan o ddathliadau dengmlwyddiant y ganolfan. Bryd hynny, roedd deg o unigolion yn ceisio argyhoeddi'r gynulleidfa i bleidleisio dros y llyfr yr oedden nhw wedi'i ddewis fel llyfr gorau'r ddegawd. Roedd yn noson arbennig o hwyliog gyda'r cystadleuwyr yn ceisio pob ffordd bosibl o sicrhau pleidlais (gan gynnwys llwgrwobrwyo â chacennau!). Ers hynny, mae sawl person wedi gofyn i Morlan drefnu Stomp arall a dyna pam yr aethpwyd ati i drefnu'r noson hon ym mis Tachwedd.

Nid cystadleuaeth rhwng unigolion fydd hi'r tro yma, serch hynny, ond brwydr frwd rhwng y pedwar papur bro lleol – *Papur Pawb*, *Y Ddolen*, *Y Tincer* ac *Yr Angor* (dau berson o ardal pob papur bro).

Gofynnwyd i'r wyth cynrychiolydd ddewis ei hoff lyfr Cymraeg o blith y rhai a gyhoeddwyd ers Ionawr 2014. Ar y noson, byddant yn ceisio perswadio'r gynulleidfa taw ei lyfr ef neu hi yw'r gorau a bydd y gynulleidfa yn pleidleisio ar y diwedd er mwyn penderfynu pa lyfr sy'n ennill. Bydd pob papur bro yn derbyn tocyn llyfr £10 i'w ddefnyddio fel y mynnont.

Ymysg y llyfrau dan sylw fydd *Cofio Dic* gan Idris Reynolds, *Taffia* gan Llwyd Owen, *Y Bwthyn* gan Caryl Lewis a *Poeri i Lygad yr Eliffant* gan Wil Aaron. Tybed fyddwch chi'n cytuno â'r dewis.

Dewch i drafod. Dewch i fwynhau. Dewch i gefnogi *Papur Pawb*. Mi fydd hi'n noson llawn hwyl a thensiwn mae'n siŵr!

# Elin Jones AC



Mae hi wedi bod yn haf prysur, gyda llawer o ddigwyddiadau diddorol gan gynnwys eisteddfodau a sioeau amaethyddol ar draws y sir.

Ond mae yna hefyd waith i'w wneud, gyda nifer o bethau sydd angen sylw, gan eu bod yn effeithio'n fawr ar drigolion Ceredigion.

Y cyntaf yw'r newyddion bod y gwasanaeth bws 701 yn dod i ben. Roedd y bws yma yn creu cyswllt uniongyrchol rhwng Aberystwyth a nifer o bentrefi a threfi ein sir gyda Chaerfyrddin, Abertawe a Chaerdydd.

Roedd nifer fawr o fyfyrwyr yn defnyddio'r gwasanaeth i deithio rhwng trefi prifysgol Ceredigion a thu hwnt. Caiff hefyd ei ddefnyddio'n aml gan deithwyr hŷn fel modd cost effeithiol o deithio gyda sicrwydd a thawelwch meddwl i'n Prifddinas.

Ysgrifennais at yr Aelod Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith er mwyn gofyn i'r Llywodraeth gydweithio gyda Chyngor Ceredigion ac unrhyw darpar ddarparwyr y gwasanaeth er mwyn ei alluogi, a'i sicrhau i'r dyfodol. Roeddwn yn falch iawn i glywed yn ôl ganddo bod cynlluniau i ailgychwyn gwasanaeth uniongyrchol erbyn diwedd mis Hydref. Edrychaf ymlaen at glywed y manylion llawn.

Yn ail, fe ddaeth y newyddion am benderfyniad cyfranddalwyr cymdeithas Tai Cantref i gyfuno â chymdeithas tai Wales a West. Fe bleidleisiodd bwrdd cyfranddalwyr Tai Cantref i fynd ymlaen gyda'r cytundeb gwerth £30 miliwn a fydd yn gweld cymdeithas tai Wales a West yn cymryd rheolaeth o tua 1,800 o eiddo Tai Cantref.

Mae'n siomedig iawn i weld Tai Cantref yn dod i ben fel cymdeithas tai annibynnol. Roedd yn gymdeithas arloesol, yn ei ddydd, ac mae rhaid gofyn cwestiynau treiddgar nawr am y rhesymau sydd wedi arwain at y sefyllfa yma. Fe ddylai Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal adolygiad o'r hyn sydd wedi digwydd er mwyn dysgu gwersi i gymdeithasau tai eraill.

Bydd nifer o bobl yng Ngheredigion yn ymwybodol bod y Llywodraeth wedi cyhoeddi adroddiad yr Athro Diamond i addysg uwch yng Nghymru y mis hwn. Roeddwn yn falch iawn i gefnogi'r adolygiad pan cafodd ei sefydlu, ac fel etholaeth sydd â dwy brifysgol ynddi, mae'n siŵr y byddwn ni yng Ngheredigion yn gwylio ymateb y Llywodraeth yn agos. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu gan Lywodraeth Cymru er lles ein sefydliadau.

Mae ein prifysgolion yn hanfodol i Geredigion. Maent yn darparu addysg ar gyfer ein pobl ifanc (a hŷn), maent yn rhoi Ceredigion ar y map, ac yn gyflogwyr hanfodol. Rhaid eu cefnogi.

Cofiwch gysylltu ar unrhyw adeg er mwyn trefnu cyfarfod, neu mae croeso i chi gysylltu â'r swyddfa er mwyn trefnu apwyntiad cymhorthfa.

# Y Gair Olaf



Trist oedd gwylio'r plant bach yn cael eu casglu o'r ysgol am hanner awr wedi tri ar 19 Gorffennaf 2016, dyddiad cau ysgol Llangynfelyn am byth. Dim sŵn plant yn chwarae yn yr iard mwyach na chloch yr ysgol yn canu am naw y bore. Tawelwch a llonyddwch llethol.

Mae dyn yn ryw holi ei hun: A wnaethom ni ddigon o ymdrech i gadw'r ysgol ar agor? Beth fyddai ein cyndeidiau yn meddwl amdanom yn ildio i'r Awdurdodau i gau'r ysgol?

Yr un fyddai'r cwestiynau am Gapel Wesleaidd Soar, Tre'r Ddôl a gaewyd tua phymtheg mlynedd yn ôl bellach. Yr hen oes yn brwydro i adeiladu capel ac ysgol yn yr ardal hon a'r oes sydd ohoni yn ddigon bodlon gweld eu cau. Mae rhyw euogrwydd yn codi drosof.

Ond yna gofynnaf i mi fy hun, Wel beth allwn ni fod wedi gwneud yn wahanol? Yr ateb syml iawn yw - DIM BYD. Doedd dim digon o blant i fynychu'r ysgol i'r dyfodol agos a heb blant, does dim ysgol. Does dim hud Pibydd Hamelin gennyf i dynnu plant ar fy ôl i'r ysgol fach yn Llangynfelyn, gwaetha'r modd.

Ond 'dyw hi'n eironig. Pobl dlawd yr oes o'r blaen yn ymdrechu i grafu arian at ei gilydd i godi capel ac ysgol, a'r oes oleuedig, foethus hon yn methu fforddio i gadw'r ddau ar agor!

Diolch byth fod Gwasanaethau'r Eglwys, Rehoboth a Chwrdd Chwiorydd Rehoboth yn dal i fynd a bod y Sioe Arddwriaethol wedi ei hailgychwyn ac yn llwyddiant neu fe fyddai'n dlawd iawn yn yr ardal yma erbyn hyn. Mynychwn a chefnogwn y rhain yn gyson rhag eu colli.

'Cyn gweld gwerth mae'n rhaid colli', medd Tony ac Aloma. Cofiwn hyn.

*Eiriona Metcalfe*

pp Hydref 16.qxp_Layout 1 12/10/2016 9:48 am Page 8

# Canlyniadau Sioe Llangynfelyn

**Llysiau**
**3 Tatws**
1 Mr Richard Spencer, Tŷ Manceinion , Taliesin
2 Mr Richard Spencer
3 Mr Wyn Griffiths, Wenlyng, Tre'r Ddôl
**4 Sialots**
1 Mr Richard H Davies, Al Liorzh, Tre'r Ddôl
2 Mr Wyn Griffiths
3 Mrs Val Walsh, Plas Penrhyn, Tre'r Ddôl
**3 Nionod**
1 Mr Richard H Davies
**3 Betys**
1 Mr Huw Evans, Coed Yr Eos, Taliesin
2 Mrs Val Walsh
**3 Cennin**
1 Mr Richard H Davies
**4 Ffa Dringo**
1 Mr Richard H Davies
2 Mr F Haynes, Y Bwthyn, Taliesin
3 Ms Michelle Leslie, Llys Cynfelin, Taliesin
**4 Ffa Frengig**
1 Mitchell, Gwynfryn, Lodge, Tre'r ddôl
2 Mr Richard H Davies
**2 Ciwcymbr**
1 Mr Iori Jones, Gerynant, Tre'r Ddôl
2 Mr Richard Spencer
3 Mr Wyn Griffiths
**4 Tomatos mawr**
1 Mr Richard H Davies
2 Mr Richard H Davies
3 Ms Suzanne Brooks, Llety Llwydin, Tre'r Ddôl
**3 Tshilis**
1 Mr Richard Spencer
2 Mr Richard H Davies
**3 Corbwmpenni**
1 Mitchell
2 Mr Richard Spencer
**2 Maros**
1 Mr Geraint Lewis,York house, Tre'r Ddôl
2 Mrs Helen Hicks, Ty Coch, Llangynfelyn
3 Mrs Juliet Regan, Free Trade Hall, Taliesin
**3 Panasen**
1 Mr Richard H Davies
**Blwch/hanbwrth o lysiau cymysg**
1 Mrs Helen Hicks
2 Mr Richard H Davies
3 Ms Suzanne Brooks
**Bwnsiaid o berlysiau cymysg**
1 Ms Suzanne Brooks
2 Mrs Chris Gilbert, Swn y Nant, Tre'r Ddôl
3 Ms Gwenn Le Helloco, Al Liorzh,Tre'r Ddôol
**Y ffa hiraf**
1 Mr Richard H Davies
2 Mr Richard H Davies
3 Mr Wyn Griffiths
**2 Letysen**
1 Mr Richard H Davies
**Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran** - Mr Richard H Davies, Al Liorzh, Tre'r Ddôl
**Arddangosfa orau yn yr adran** - Mrs Helen Hicks, Tŷ Coch, Llangynfelyn

**Ffrwythau**
**3 Afal coginio**
1 Mr Geraint Lewis
2 Mr Geraint Lewis
3 Mrs Mai Leeding, Glannant, Taliesin
**3 Afal pwdin**
1 Mrs Mai Leeding
2 Mrs Mai Leeding
3 Mr Geraint Lewis
**6 Eirin Sbaen**
1 Mr Geraint Lewis
2 Mrs Gillian Jones, Blaenddol, Tre'r Ddôl
3 Ms Gwenn Le Helloco
**3 coesyn Riwbob**
1 Mitchell
2 Jasmine Foster Leslie, Llys Cynfelin, Taliesin
**3 Gellyg**
1 Mr Huw Evans
**Ffrwythau cymysg mewn basged bach**
1 Ms Gwenn Le Helloco
2 Mitchell
**Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran** - Mr Geraint Lewis, York house, Tre'r Ddôl
**Arddangosfa orau yn yr adran** - Mr Geraint Lewis, York house, Tre'r Ddôl
**Cyfeithiau**
**Jar o Jam**
1 Mrs Meinir Fleming, Pen y Graig, Tre'r Ddôl
2 Mrs Liz Spencer, Tŷ Manceinion, Taliesin
3 Mrs Sharon Lewis, York House, Tre'r Ddôl
**Jar o Jeli ffrwyth**
1 Ms Gwenn Le Helloco
2 Mrs Sharon Lewis
3 Mrs Sharon Lewis
**Jar o Sytni**
1 Mrs Sharon Lewis
2 Mrs Helen Hicks
3 Mrs Juliet Regan
**Jar o Farmaled**
1 Mrs Sharon Lewis
2 Mrs Val Walsh
3 Mrs Eiriona Metcalfe, Nirvana, Taliesin
**Jar o geuled ffrwythau**
1 Ms Suzanne Brooks
2 Ms Suzanne Brooks
3 Mrs Chris Gilbert
**Jar o bicls**
1 Mr Richard H Davies
2 Mrs Jill South, Glyn Helyg, Taliesin
3 Mr Richard H Davies
**Jar o Gyffaith Anghyffredin**
1 Mrs Helen Hicks
2 Mrs Sharon Lewis
3 Mr Richard H Davies
**Jar o Jeli Mint**
1 Mrs Sharon Lewis
2 Ms Gwenn Le Helloco
3 Mrs Chris Gilbert
**Dosbarth dechreuwyr- jar o Sytni**
1 Mrs Jill South
2 Mrs Chris Gilbert
**Botel o Gordial**
1 Ms Gwenn Le Helloco
2 Mrs Sharon Lewis
3 Mrs Liz Spencer
**Gwirod ffrwyth**
1 Ms Gwenn Le Helloco
2 Mrs Sharon Lewis
3 Mrs Meinir Fleming
**Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran** - Mrs Sharon Lewis, York house, Tre'r Ddôl
**Arddangosfa orau yn yr adran** - Ms Suzanne Brooks, Llety Llwydin, Tre'r Ddôl

**Coginio**
**Cacen Fictoria**
1 Mrs Meinir Fleming
2 Mrs Linda Hicks, Lynafon, Tre'r Ddôl
3 Mr Wyn Griffiths
**Fy Hoff Gacen**
1 Mrs Kath Jones, Gerynant, Tre'r Ddôl
2 Miss Michelle James, 4 Maes Clettwr, Tre'r Ddôl
3 Mrs Jill South
**4 Bisced wedi ei addurno**
1 Mrs Glen Griffiths, Wenlyng, Tre'r Ddôl
2 Mrs Glen Griffiths
3 Miss Michelle James
**Bara Brith**
1 Mrs Sharon Lewis
2 Mrs Meinir Fleming
3 Mrs Avril Bond, Brodawel, Taliesin
**Cacen yn corffori llysieuyn**
1 Mrs Ann Mitchell
2 Mrs Sue Lewis, Maes Gwyn, Tre'r Ddôl
3 Miss Michelle James
**Fflan sawrus**
1 Miss Michelle James
2 Mrs Glen Griffiths
3 Mrs Kath Jones
**Torth soda**
1 Mrs Sharon Lewis
2 Mrs Eiriona Metcalf
3 Mr Richard H Davies
**4 Pice ar y maen**
1 Miss Michelle James
2 Mrs Meinir Fleming
3 Mrs Kath Jones
**Bara wedi ei flasu- melys neu sawrus**
1 Ms Suzanne Brookes
2 Mrs Sharon Lewis
3 Mr Wyn Griffiths
**Tarten Bakewell**
1 Ms Gwenn Le Helloco
2 Mrs Glen Griffiths
3 Mrs Linda Hicks
**3 Eclairs Siocled**
1 Mrs Meinir Fleming
2 Mrs Meinir Fleming
**Cacen I ddynion yn unig- Cacen Guinness**
1 Mr Wyn Griffiths
2 Mr Huw Lewis, Maesgwyn, Tre'r ddôl
3 Mr Geraint Lewis
**Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran** - Mrs Meinir Fleming, Pen y graig, Tre'r Ddôl
**Arddangosfa orau yn yr adran** - Mrs Kath Jones, Gerynant, Tre'r Ddôl

**Cynnyrch Fferm**
**3 Wyau Brown**
1 Mrs Meinir Fleming
2 Mrs Gillian Jones
3 Mitchell
**3 Wyau gwyn**
1 Mr Richard H Davies
2 Mrs Gillian Jones
**3 Wyau Arlliwiedig**
1 Mr Richard H Davies
2 Mr Richard H Davies
3 Mrs Meinir Fleming
**3 Wy o wahanol liw**
1 Mr Richard H Davies
2 Mrs Meinir Fleming
3 Mrs Gillian Jones
**Botel o Fêl clir**
1 Mr Richard H Davies
2 Mitchell
3 Mr Richard Spencer
**Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran** - Mr Richard H Davies, Al Liorzh, Tre'r Ddôl
**Arddangosfa orau yn yr adran** - Mr Richard H Davies, Al Liorzh, Tre'r Ddôl

**Blodau**
**5 coesyn unigol- cymysg**
1 Mrs Carys Briddon, Penrhyn, Tre'r Ddôl
2 Ms Gwenn Le Helloco
3 cydradd: Mrs Val Walsh & Mrs Jan Nowak, Banc Y Deri, Tre'r Ddôl
**3 coesynunigol-yr un math o flodyn**
1 Mrs Chris Gilbert
2 Ms Gwenn Le Helloco
3 Mrs Jan Nowak,
**Planhigyn tŷ mewn pot- y deiliant**
1 Mrs Mai Leeding
2 Mrs Richard Spencer
3 Mrs Jan Nowak
**Planhigyn tŷ mewn pot-yn ei flodau**
1 Ms Gwenn Le Helloco
2 Mrs Mai Leeding
3 Mrs Shelly Foulkes, Voelas Villa, Taliesin
**Cactws neu blanhigyn suddion mewn pot**
1 Mrs Sharon Lewis
2 Mrs Jan Nowak
3 Mrs Shelly Foulkes
**Potyn neu bocs ffenestr wedi ei blannu**
1 Ms Gwenn Le Helloco
2 Mrs Mai Leeding
3 Mrs Mai Leeding
**Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran** - Ms Gwenn Le Helloco, Al Liorzh, Tre'r Ddôl
**Arddangosfa orau yn yr adran** - Mrs Sharon Lewis, York House, Tre'r Ddôl

**Celf Flodau**
**Amser cynheuaf**
1 Miss Jasmine Leslie Foster
2 Mrs Chris Gilbert
3 Mrs Glen Griffiths
**Trefniant i ganol bwrdd**
1 Mrs Glen Griffiths
2 Mrs Chris Gilbert
3 Miss Ffion Hicks, Tŷ Coch, Llangynfelyn
**Addurniad mewn llwy**
1 Mrs Chris Gilbert
2 Mrs Glen Griffiths
**Dosbarth dechreuwyr- trefniant mewn cwpan**
1 Mrs Jan Nowak
**Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran** - Mrs Chris Gilbert, Swn y Nant, Tre'r Ddôl
**Arddangosfa orau yn yr adran** - Mrs Chris Gilbert, Swn y Nant, Tre'r Ddôl

**Yr Adran Blant**
**Gwyneb Pizza-Ysgol Gynradd**
1 Iwan Foster Leslie, Llys Cynfelin, Taliesin
2 Iwan Foster Leslie
3 Becca Fflur, 12 Dol Pistyll, Tal-y-bont
**4 cacen Pili Pala-Ysgol Uwchradd**
1 Libby Foulkes, Voelas Villa, Taliesin
2 Lewys Foulkes, Voelas Villa, Taliesin
3 Jasmine Berry, Tyn Y Garth, Ffwrnais
**Esgid law wedi ei addurno-Ysgol Gynradd**
1 Becca Fflur
2 Elanor Davies, Gwynfryn, Tal-y-bont
3 Rhodri Davies, Gwynfryn, Tal-y-bont
**Collage o ddeunydd o'r traeth-Ysgol Gynradd**
1 Iwan Foster Leslie
**Tŷ bychan trychfilod-Ysgol Gynradd**
1 Iwan Foster Leslie
**Tŷ bychan trychfilod-Ysgol Uwchradd**
1 Jasmine Foster Leslie
**Llun-Gan blant meithrin**
1 Alys Jarret, Oernant, Tre'r Ddôl
2 Dora Lewis, d/o Wenlyng, Tre'r Ddôl
**Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran** - Iwan Foster Leslie, Llys Cynfelin, Taliesin
**Arddangosfa orau yn yr adran** - Jasmine Foster Leslie, Llys Cynfelin, Taliesin

**Crefftau**
**Het wedi ei gweu neu grosio**
1 Mrs Anne Solomon, Froggy Pond, Llangynfelyn
2 Mrs Joan Brown, Hayfields, Tre'r Ddôl
3 Mrs Kath Jones
**Eitem o gytwaith**
1 Ms Maureen Mc Neill, Bridge House, Tre'r Ddôl
2 Mrs Sharon Lewis
3 Ms Maureen Mc Neill
**Darlun**
1 Mrs Juliet Regan
2 Ms Michelle Leslie, Llys Cynfelin, Taliesin
3 Ms Michelle Leslie
**Bocs wedi ei addurno**
1 Mrs Joan Brown
2 Mrs Anne Solomon
3 Mrs Glen Griffiths
**Eitem wedi ei wneud o deunydd wedi ei defnyddio**
1 Mrs Sylvia Cartwright, 1 The Romans, Taliesin
2 Mrs Sylvia Cartwright
3 Mrs Glen Griffiths
**Bocs nyth anifail bach neu aderyn**
1 Iwan Foster Leslie
**Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran** - Mrs Anne Solomon, Froggy Pond, Llangynfelyn
**Arddangosfa orau yn yr adran** - Mrs Anne Solomon, Froggy Pond, Llangynfelyn

**Ffotograffiaeth**
**Yr Ardd-lliw**
1 Mrs Carys Briddon
2 Mrs Gillian Jones
3 Mrs Carys Briddon
**Anifail-lliw**
1 Ms Kathryn Edwards, Oernant, Tre'r Ddôl
2 Cydradd: Mr Anthony Jarrett, Oernant, Tre'r Ddôl; Mr Anthony Jarrett
**Pont-du a gwyn**
1 Mr Anthony Jarrett
2 Mr Anthony Jarrett
3 Miss Michelle James
**Adran plant**
**Cael Hwyl-lliw Ysgol Gynradd**
1 Lewys Foulkes
2 Becca Fflur
3 Gethin Davies
**Cael Hwyl-lliw Ysgol Uwchradd**
1 Libby Foulkes
2 Ffion Hcks
3 Heledd Davies
**Hunlun-lliw Ysgol Gynradd**
1 Kate Indeka,Llwynderi, Tre'r Ddôl
2 Elinor Davies, Gwynfryn, Tal-y-bont
3 Kate Indeka
**Hunlun-lliw Ysgol Uwchradd**
1 Jasmine Berry
2 Ruby Indeka, Llwynderi, Tre'r Ddôl
3 Heledd Davies
**Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran** - Mr Anthony Jarrett, Oernant, Tre'r Ddôl
**Arddangosfa orau yn yr adran** - Jasmine Berry, Tyn Y Garth, Ffwrnais

**Bwgan Brain**
**Cymeriad o Gartŵn**
2 Cydradd: Mrs Ann Mitchell & Mrs Glen Griffiths

# Sioe Llangynfelyn



*Cynnyrch yr adran goginio*



*Cofiwch fod lluniau fel hwn o hen sioeau Llangynfelyn a digwyddiadau eraill yn yr ardal i'w gweld ar wefan Casgliad y Werin (https://www.casgliadywerin.cymru/). Dyma Lowri Non Evans, Iola Evans a Catrin Evans yn arddangos eu hanifeiliad anwes yn Sioe Llangynfelyn 1982.*



*Meinir Fleming gyda'i chacen fictoria fuddugol*

## Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth



*Myfanwy Rowlands yn torri'r gacen yng Nghymdeithas y Chwiorydd*

Ar gychwyn tymor newydd brynhawn Mawrth, 13 Medi yn festri capel Rehoboth, Taliesin, cafwyd dathliad i nodi chwarter canrif ers ailgychwyn Cymdeithas y Chwiorydd gan Myfanwy Rowlands a'r ddiweddar Nesta Evans nôl yn 1991.

Croesawyd yr aelodau gan Eiriona Metcalfe a chyn mwynhau'r wledd o'n blaenau adroddodd Carys Briddon ychydig o hanes cynnar y Gymdeithas a ffurfiwyd yn y 1950au cynnar gan Mrs J.E. Thomas, yn ôl gwybodaeth a gafwyd mewn rhifynnau o Lloffion Llangynfelyn o'r cyfnod hwnnw.

Wedyn cafwyd hanes yr ailgychwyn yn 1991 o'r adroddiadau a ymddangosodd ym Mhapur Pawb, gyda chrynodeb o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn honno.

Yna torrodd Myfanwy Rowlands y gacen a wnaed gan Meinir Fleming, a mwynhaodd pawb y te hyfryd a baratowyd gan Mai Leeding a Myfanwy Rowlands.

## Arafu'r traffig?



Mi fydd llawer o ddarllenwyr Papur Pawb wedi sylwi nad yw'r arwyddion cyfyngu cyflymder electronig sydd bellach yn eu lle ers dros flwyddyn yn gweithio'n gyson. Er y buddsoddiad sylweddol, ymddengys nad ydynt yn cael eu cynnal. Mae'r arwydd 20 milltir yr awr sydd ar y ffordd i mewn i Dal-y-bont o gyfeiriad Pentrebach heb ei banel solar ers blwyddyn bellach, ac yn gwynebu i'r cyfeiriad anghywir, a dim wedi ei wneud i gywiro hyn.

ANGEN TREFNU EICH PARTI NADOLIG?
BETH AM DDOD I yBlac TALYBONT!

yBlac

Cymrwch olwg ar ein bwydlen - yblac.co.uk

Gobeithio y byddwch yn mwynhau'r fwydlen gystal ag rydym ni wedi mwynhau ei chreu… a'i phrofi!

Bwydlen Nadolig ar gael o 25 Tachwedd – 23 Rhagfyr

01970 832 555
croeso@yblac.co.uk

pp Hydref 16.qxp_Layout 1 12/10/2016 9:48 am Page 10



# BUSNESA

**Dros y misoedd nesaf bydd Papur Pawb yn ymweld â busnesau'r ardal – yn arbennig y busnesau sy wedi hysbysebu yn y papur dros y blynyddoedd gan holi beth oedd y symbyliad i gychwyn y fusnes, beth am y problemau a sut mae pethau wedi newid dros y blynyddoedd?**

A dyma ddechrau gyda busnes sydd wedi cefnogi'r papur o'r cychwyn cyntaf – siop Richard y Gwallt.

Cafodd Richard ei fagu yn Brighton ac fe benderfynodd yn gynnar iawn ei fod am ddilyn gyrfa fel torrwr gwallt. Felly ar ôl gadael ysgol dilynodd gwrs yn Academi Trin Gwallt Vidal Sassoon. Arloeswr yn ei faes, roedd Sassoon yn nodedig am dorri gwallt mewn steil syml naturiol, yn arbennig yr enwog Bob Cut, steil a fabwysiadwyd gan yr eicon ffasiwn Mary Quant. Ar derfyn ei hyfforddiant yn 1980 daeth Richard i weithio yn Salon Tlws Aberystwyth. Yn gyflym fe enillodd enw fel torrwr medrus gan ddenu llu o gwsmeriaid i'r siop yn North Parade.

Fodd bynnag roedd ei fryd ar redeg busnes ei hun ac yn 1983 fe ddaeth i Dal-y-bont. Y bwriad gwreiddiol oedd addasu llawr gwaelod yr Emporiwm ond am nifer o resymau methwyd a gwireddu'r bwriad ac wrth edrych 'nôl mae Richard yn falch o hynny. Roedd y mynediad i'r adeilad yn lletchwith a pharcio yn amhosib. Cafodd gynnig hanner yr hen Siop Felin gan Ithel a Valma Jones a bachu'r cyfle. Gwelodd fod y lleoliad yn ddelfrydol – yn agos i'r ffordd fawr ac felly yng ngolwg y cyhoedd ac yn cynnig parcio hwylus. Dyma lle sefydlwyd y fusnes a dyma lle mae e heddiw, bellach wedi prynu'r safle ac yn byw uwchben y siop.

Dros yrfa o fwy na deng mlynedd ar hugain mae Richard wedi gweld newidiadau sylweddol. Yn y blynyddoedd cynnar perms – permanent wave – oedd y ffasiwn gyda chwe neu saith cwsmer yr wythnos yn gofyn am y driniaeth wyrthiol. Bellach un yn bob rhyw dair wythnos yw'r arfer. Felly hefyd lliwio – yn y gorffennol lliwio i guddio'r blewyn llwyd neu wyn oedd y nod ond mae cwsmeriaid heddiw yn gofyn am bob lliw dan haul. A fydd e weithiau yn awgrymu'n dawel nad yw'r pinc neu gwyrdd llachar yn syniad da? Bydd, ond yn y pendraw y cwsmer sydd â'r gair olaf. Newid arall yw ffynhonnell y syniadau – erbyn heddiw prin y bydd cwsmer yn cael ysbrydoliaeth gan lun o gylchgrawn, na, mae'r llun (o ffrind efallai) ar y ffôn. Ond ym marn Richard er y newidiadau, yr un yw'r grefft – torri gwallt yw torri gwallt.

Mae e hefyd yn farbwr, yn torri gwallt dynion ac fe fydd y rhai craff wedi sylwi ar y polyn streipiog tu allan i'r siop. Newidiadau eto. Diflannodd yr hen short back and sides am hanner coron ac mae'r dynion bellach yn reit bendant am steil a golwg ac yn barod i dalu.

Beth am sgwrsio gyda'r cwsmer? Wel mae rhai yn hoffi sgwrs a rhai yn hoffi llonydd – yn gweld yr awr yn y salon fel cyfle i ymlacio. Fel ymhob busnes rhaid bod yn gwrtais ond nid yw Richard yn rhoi llawer o bwys ar y testunau bythol wyrdd – y tywydd, gwyliau a'r ddiarhebol cynlluniau am heddiw. Mae **yn** rhoi pwys ar adnabod cwsmeriaid – y cwsmeriaid ffyddlon rheolaidd sy'n troi i mewn bob rhyw fis neu dair wythnos. Ac mae nhw'n dal i droi mewn dros ardal yn ymestyn o Aberystwyth i Aberdyfi a hynny'n sicr yn brawf o lwyddiant.

A'r cais rhyfeddaf erioed? Lliwio cnu dwy ddafad!!

*GIE*

# Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Adroddiad o'r prif faterion a drafodwyd yng nghyfarfodydd mis Medi.

**Materion Cynnal a Chadw**
Adroddodd y clerc y prif ddiweddariadau ynglŷn â gwaith cynnal a chadw niferus sydd wedi cael eu hadrodd i'r Cyngor Sir. Yn arbennig, nododd aelodau'r Cyngor fod y giât wrth fynedfa Maes y Deri wedi cael ei ail osod i ganiatáu cadeiriau olwyn.

**Fandaliaeth – Cae Bach**
Yn anffodus, fuodd achos o fandaliaeth yn y Cae Bach dros yr haf. Fuodd rhywun/rhywrai yn paentio graffiti ar offer y wal ddringo fach a'r llawr rwber. Adroddwyd yr achos i'r heddlu, ond yn anffodus nid dderbyniwyd unrhyw wybodaeth bellach wrth y cyhoedd i fedru parhau gyda'r mater. Cost y difrod oedd ychydig dros £100 a chaiff ei dalu gan y Cyngor Cymuned. Mi fydd y gwaith o baentio dros y graffiti yn digwydd yn ystod mis Hydref.

**Cynnal a Chadw – Cae Bach**
Mi fydd manion o waith cynnal a chadw ar rai offer y Cae Bach yn ystod y mis nesaf. At hyn, cytunwyd i roi gorchudd llawr lliwgar newydd dros ddau ddarn o offer, gyda'r nod o gwblhau'r gwaith cyn gynted a bod modd i'r cwmni offer ei wneud.

**Boncyff yn y 'Leri**
Adroddodd y Clerc fod Peiriannydd Risg Llifogydd ac Arolygwyr Asedau Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymweld â rhan yr afon ar waelod y pentref yn dilyn pryder fod boncyff wedi mynd yn sownd wrth beipen carthffosiaeth. Adroddodd y peiriannydd fod y coed oedd wedi eu dal ar y beipen – un i lawr at y weir a llall yn bellach lawr yr afon. Nodwyd eu bod wedi cerdded yr ardal i gael arolwg o'r ardal tra oeddent yno, gan gerdded i lawr am yr hen Felin, er ni welwyd problem risg llifogydd.

**Archwiliad Ariannol 2015-16**
Adroddodd y Clerc fod Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyflwyno adroddiad archwilio diamod i Gyngor Ceulanamaesmawr.


**Gohebiaeth – Osian Jones, Cyngor Sir Ceredigion: Cynllun Mabwysiadu Llwybrau**
Adroddodd y Clerc fod Osian Jones, Swyddog Mynediad Cymunedol yng Nghyngor Sir Ceredigion, wedi gofyn a fedrai ddod i siarad â'r Cyngor ynglŷn â'r cynllun newydd i wirfoddolwyr gynnal a chadw llwybrau cyhoeddus. Cytunwyd iddo gyflwyno ar ddechrau cyfarfod mis Hydref y Cyngor.

**Gohebiaeth - Cyngor Sir Ceredigion: Cyfnewidfa Drafnidiaeth newydd Bow Street**
Derbyniwyd hysbys fod wybodaeth bellach ar y gyfnewidfa ar wefan y cyngor, gan gynnwys cwestiynau cyffredinol, lluniau ayb. Y linc i'r safle yw: http://www.ceredigion.gov.uk/Cymraeg/Preswyliwr/Teithio-Ffyrdd-Pharcio/bowst/Pages/default.aspx

pp Hydref 16.qxp_Layout 1 12/10/2016 9:48 am Page 11

## Dod i nabod....

# Dr Matt Gunn



### O Dal-y-bont i'r Blaned Mawrth

Pan fydd taith ExoMars yr Asiantaeth Ofod Ewropeaidd ac Asiantaeth Ofod Ffederal Rwsia yn cael ei lansio yn 2020, mi fydd un gŵr o Dal-y-bont yn cadw llygad barcud ar ddatblygiadau.

Un o brif amcanion y daith fydd chwilio am arwyddion o fywyd ar y blaned Mawrth, ac mi fydd gwaith grŵp ymchwil sy'n cael ei arwain gan Dr Matt Gunn o Dal-y-bont, a Darlithydd yn Adran Ffiseg Prifysgol Aberystwyth, yn allweddol.

Yn wreiddiol o Flaenau Ffestiniog, mae Matt yn arbenigwr ym maes Opteg ac wedi bod yn gweithio ar gamerau'r ExoMars Rover, y crwydryn maint car bychan fydd yn glanio ar y Blaned Mawrth.

Yr her i Matt a'i gydweithwyr yw sicrhau bod lliwiau'r lluniau fydd yn cael eu hanfon yn ôl i'r ddaear yn gywir.

Un o nodweddion amgylchedd y Blaned Mawrth yw'r lefelau uchel iawn o olau uwch-fioled. Golyga hyn bod lliwiau'n pylu'n gyflym iawn a gwawr goch/oren ar bopeth.

Er mwyn i gamerau ExoMars weithio'n iawn, mi fydd yn rhaid iddynt fedru ail-osod eu cydbwysedd lliw yn gyson drwy ddefnyddio palet o liwiau.

Byrhoedlog fyddai lliwiau ar fetel neu blastig, ac felly bu rhaid chwilio am ddeunydd arall.

Daeth yr ateb ar ffurf gwydr lliw rhai o gadeirlanau mawr y Byd megis Notre Dame ym Mharis, sy'n parhau mor lliwgar ag erioed, er i'r haul daro arnynt ers canrifoedd.

Ac felly darnau bach o wydr lliw sydd wedi eu datblygu gan Matt a'i dîm yn Aberystwyth fydd yn sicrhau bod lliwiau lluniau'r camerau yn gywir.

Ond mi fydd un gorchwyl arall gan y camerau, sef tynnu lluniau o'r ExoMars Rover ei hunan.

Ateb Matt a'i gydweithwyr i'r her hon oedd creu drych hunlun a fydd yn galluogi'r crwydryn i weld ei hun, rhag iddo gael ei ddifrodi wrth chwilio am fywyd ar y blaned goch.

## Taith Capel Rehoboth



*Aelodau taith flynyddol Capel Rehoboth yn y theatr yng Nghanolfan Soar ym Merthyr Tudful*

Ar ddydd Sadwrn braf, 24 Medi, aeth aelodau a ffrindiau capel Rehoboth ar eu taith flynyddol i ardal Merthyr Tudful. Teithiwyd dros fynydd yr Epynt i gyrraedd Aberhonddu lle'r arhoswyd i gael paned o goffi.

Wedi cyrraedd Merthyr ymwelwyd â Chanolfan Soar sydd yn gartref i sefydliadau Cymraeg yr ardal. Nod y Ganolfan yw hybu defnydd o'r Gymraeg ym Merthyr a chreu cyfle i drigolion yr ardal i gymdeithasu gan fod yno theatr, siop a chaffi. Ar ôl cael bwyd yn y caffi cawsom ein tywys o amgylch y Ganolfan a chael peth o hanes y capel.

Wedi hynny ymwelwyd â Chastell Cyfarthfa a oedd ar un adeg yn gartref i deulu Crawshay, perchnogion Gwaith Haearn Cyfarthfa. Cafwyd amser i weld y creiriau unigryw yn yr Amgueddfa a'r casgliadau o gelf yn yr Oriel Gelf.

Bwthyn Joseph Parry yn Rhes y Capel oedd y lleoliad nesaf i ymweld ag ef, ac yno cafodd y cyfansoddwr Joseph Parry ei eni yn 1841. Hyfrydwch i'r tywyswyr yno oedd gwrando ar 'gôr' Rehoboth yn canu 'Myfanwy' yn y bwthyn!

Ffarweliwyd â Merthyr Tudful ar ôl hynny gan aros yng ngwesty Elan yn Rhaeadr Gwy i gael pryd hyfryd o fwyd ar ein ffordd adref. Mae ein diolch yn fawr i Bob am drefnu'r daith, ac i Brian am yrru'r bws.

# Cymdeithas y Cŵn Defaid Cymreig



*Ynyr gyda Toss y ci*

Ar brynhawn oer a gwlyb ym mis Medi, cynhaliodd Cymdeithas y Cŵn Defaid Cymreig gystadleuaeth rhwng tair rhanbarth y gymdeithas – y gogledd, canolbarth a de Cymru ar Fferm y Gydros, Cwmpenanner, Cerrigydrudion.

Roedd yn rhaid i bob tîm gyflawni pump tasg gyda phump bugail gwahanol. Y dasg gyntaf oedd hela'r ci i ochr draw y cwm a chasglu deugain o ddefaid a'u corlannu. Yn yr ail dasg roedd yn rhaid i'r bugail ddal dafad benodol gyda ffon fugail yn erbyn y cloc. Y drydedd dasg oedd gyrru y defaid i ffwrdd o'r bugail i ochr draw y cwm. Y bedwerydd dasg oedd cael y bugail i gorlannu a didoli ac yna llwytho'r defaid i mewn i drelar. Y dasg olaf oedd i aelod o dan 21 yrru ci o amgylch y defaid a'u corlannu.

Roedd Dewi Jenkins, Tyngraig, Ynyr Siencyn, Tanrallt ac Hedd Dafydd, Cefncoch, Llanilar yn aelodau o dîm y Canolbarth. Daeth y tîm yn ail – da iawn fechgyn – bugeiliaid y dyfodol!

## Tal-y-bont Teriyrs



Tîm pêl-droed Tal-y-bont Teriyrs dan 12 yn eu cit newydd a noddwyd gan Simon Wood, 'Aberystwyth Window Cleaners', Aberystwyth. Diolch i'r rheolwr Bernard Morris, Bow Street am roi sglein ar chwarae'r plant.

**Garej Davmor**

- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

*Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont*

01970 832278 www.davmorgarage.co.uk

pp Hydref 16.qxp_Layout 1 12/10/2016 9:48 am Page 12

# CHWARAEON



*Chris Wylde (canol) yn gwylio ei beniad at y gôl. Tarodd y bêl ben rhif 15 Llanboidy ac i'r rhwyd*

## Gôl Hwyr

Gwynt cryf gafodd y gorau o chwaraewyr Tal-y-bont a Llanboidy yn rownd gyntaf Cwpan Coffa Dai 'Dynamo' Davies ar Sadwrn olaf Medi ar Gae'r Odyn Galch.

Mewn gêm flêr llwyddodd bechgyn Tal-y-bont i ennill eu lle yn rownd nesaf y gystadleuaeth o drwch blewyn. Callum Pritchard sgoriodd yn gyntaf i Dal-y-bont yn yr hanner cyntaf ond unionwyd y sgôr yn yr ail hanner. Yna yn hwyr yn y gêm llwyddodd un o amddiffynwyr Llanboidy i benio'r bêl i'w rwyd ei hun wedi i Chris Wylde benio'r bêl tuag at y gôl.

Yn ogystal â'r gystadleuaeth hon, mae tîm Tal-y-bont wedi cael dechrau addawol i'r tymor yn y cynghrair. Ar hyn o bryd mae'r tîm yn ail yn adran gyntaf cynghrair Cambrian Tyres Aberystwyth a'r Cylch gan ennill pump o'i wyth gêm hyd yn hyn.

Daeth y fuddugoliaeth ddiweddaraf ar Sadwrn cyntaf Hydref pan gurwyd Eilyddion y Coleg o bedair gôl i un. Serch hynny mae'r Bont, sydd wedi ennill wyth o'i naw gêm hyd yn hyn, yn bell ar y blaen yn yr adran.

Bydd *Papur Pawb* yn rhoi sylw arbennig i Eilyddion Tal-y-bont yn rhifyn nesaf y papur.



*Callum Pritchard yn penio'r bêl*




argraffu da
*am bris da*
y Lolfa
holwch Paul am bris ar **paul@ylolfa.com**
01970 832 304 **www.ylolfa.com**


# Rhedwyr Ifanc




*Lela a Demi gyda'i medalau*

Mae 'na nifer o fechgyn a merched hen ac ifanc yr ardal yn rhedeg mewn rasys y dyddiau hyn. Mae rhai wrthi er mwyn cadw'n heini ac eraill i godi arian ar gyfer elusennau. Clywn fod rhai wedi rhedeg marathon Caer ac o leiaf dwy o Dal-y-bont wedi rhedeg hanner marathon Caerdydd. Byddai'n braf cael lluniau ohonynt i'w cyhoeddi yn Papur Pawb.

Efallai mai'r ieuengaf i redeg yn un o'r rasys hyn yw Lela Ann Morgan Jenkins, merch Dominic Jenkins a Ceri Morgan, Tal-y-bont. Llwyddodd Lela i redeg milltir mewn deg munud a 25 eiliad yn y 'Great North Run' yn Newcastle ar 10 Medi. Yn rhedeg gyda hi oedd Demi Lee Jenkins a redodd 4 cilometr mewn 21 munud. Llwyddodd y ddwy i godi £250 at elusen 'Blood Wise Leukaemia'. Ar y diwrnod canlynol llwyddodd tad Lela, Dominic, i redeg hanner marathon y Great North Run mewn awr a 28 munud. Llongyfarchiadau i'r tri ohonynt.



*Dominic Jenkins blinedig wedi iddo gwblhau'r 'Great North Run'*

## Tal-y-bont Teigars



Tîm pêl-droed Tal-y-bont Teigars dan 8 yn eu cit newydd. Roedd hi'n ddechrau da i'r tymor a cafwyd hwyl yn nhwrnament Gary Pugh. Mae'r tîm yn gwneud yn arbennig o dda yng Nghynghrair Ieuenctid Aberystwyth, chwarae dawnus gan y tîm i gyd. Diolch i'r rheolwr Mark Evans, Tal-y-bont a Guy Barron am eu gwaith caled. Da iawn chi a phob lwc i'r tîm yn ystod y tymor.